

Esgobaeth  
Bangor  
The Diocese  
of Bangor

**Grŵp Cadfan**  
05/2019

---

**3**

Agenda

---

**4**

Deudd ar gyfer  
**Sesiwn 4**  
Material for  
Session 4

---

**10**

Deudd ar gyfer  
**Sesiwn 5**  
Material for  
Session 5

---

**16**

Cyflwyniad i'r  
**addoliad**  
Introduction to  
worship

---

**18**

**Addoliad agoriadol**  
Opening worship

---

**24**

**Addoliad hwyrol**  
Evening worship

---

**30**

**Cymun Bendigaid**  
Holy Eucharist

---

**38**

**Nodiadau**  
Notes

---

---

# Agenda

## Dydd Iau / 23 Mai

- 10.30 Cyrraedd a phaned
- 11.00 **Addoliad agoriadol**  
**Wynebau Crist / Bugail**  
Myfyrdod / Miriam Beecroft
- Sesiwn 1**  
**Tasg a thîm**  
Esgob
- 11.30
- 13.00 Cinio
- Sesiwn 2**  
**Tasg a thîm**  
Esgob a grwpiau bach
- 14.00
- 15.30 Paned
- Sesiwn 3**  
**Grwpiau archddiaconiaethol**
- 16.00
- 17.30 **Addoliad hwyrol**  
**Wynebau Crist / Gair**  
Myfyrdod / Andy Herrick
- 19.00 Swper

## Thursday / 23 May

- Arrival and coffee
- Opening worship**  
**The Faces of Christ / Shepherd**  
Reflection / Miriam Beecroft
- Sesiwn 1**  
**Tasg a thîm**  
Esgob
- Lunch
- Session 2**  
**Task and team**  
Bishop and small groups
- Tea
- Session 3**  
**Archidiaconal groups**
- Evening worship**  
**The Faces of Christ / Word**  
Reflection / Andy Herrick
- Dinner

## Dydd Gwener / 24 Mai

- 08.00 Brechwast
- 09.15 **Cymun Bendigaid**  
**Wynebau Crist / Doethineb**  
Myfyrdod / Tony Hodges
- Sesiwn 4**  
**Cyllid: Cymeradwyaeth**  
**a Chronfa Weinidogaeth yr Esgob**  
Sesiwn ar y cyd
- 10.00
- 11.00 Paned
- Sesiwn 5**  
**Eiddo: Cynlluniau Datblygu Eiddo**  
Sesiwn ar y cyd
- 11.30
- 12.30 Cinio

## Friday / 24 May

- Breakfast
- Holy Eucharist**  
**The Faces of Christ / Wisdom**  
Reflection / Tony Hodges
- Session 4**  
**Finance: Remuneration**  
**and the Bishop's Ministry Fund**  
Plenary session
- Coffee
- Session 5**  
**Property: Property Development Plans**  
Plenary session
- Lunch

## Cronfa Gweinidogaeth yr Esgob The Bishop's Ministry Fund

### Archddiaconiaeth Ynys Môn / The Archdeaconry of Anglesey

	2019
Bro Cybi	£55,296
Bro Padrig	£27,648
Bro Eleth	£50,177
Bro Cwyfan	£61,440
Bro Cyngar	£49,152
Bro Cadwaladr	£76,271
Bro Dwynwen	£79,221
Bro Tysilio	£86,292
Bro Seiriol	£61,399
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>£546,896</b>

### Archddiaconiaeth Bangor / The Archdeaconry of Bangor

	2019
Bro Deiniol	£85,500
Bro Ogwen	£55,619
Bro Dwyfan	£57,180
Llandudno	£84,059
Bro Celynnin	£77,923
Bro Gwydyr	£61,500
Bro Eryri	£44,000
Beuno Sant Uwch Gwyrfa	£26,500
Llanbeblig	£36,465
Llanfar-is-gaer	£8,000
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>£536,746</b>

### Archddiaconiaeth Meirionnydd / The Archdeaconry of Meirionnydd

	2019
Bro Ardudwy	£65,000
Bro Arwystli	£69,838
Bro Cyfeiliog a Mawddwy	£64,337
Bro Cymer	£64,500
Bro Eifionydd	£60,845
Bro Enlli	£84,336
Bro Madryn	£48,000
Bro Moelwyn	£41,500
Bro Ystumanner	£68,836
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>£567,192</b>

# Cymeradwyaeth glerigol

## Clergy remuneration


### Cyflog a chydabyddiaeth graidd arall

### Stipend and other core remuneration

Cydnabyddiaeth periglor (2018)  
**Remuneration of an incumbent (2018)**

**£45,180**


Cyfanswm, heb gynnwys ffioedd o wasanaethau achlysurol  
**Total, excluding fees from occasional offices**



## Cartrefu Housing


Manteision ac anfanteision byw mewn persondy

### Advantages and disadvantages of living in a parsonage



## Ffioedd Fees


Incwm o ffioedd o gymharu â'r cyfartaledd o £3,268? Ymatebion yn ôl math o blwyf.  
**Fee income compared to £3,268 average? Responses by parish type.**




# Pensiynau Pensions

“Y tu hwnt i gydnabyddiaeth”  
“Beyond remuneration”

## Canlyniadau actiwaraidd y Cynllun Pensiwn Clerigol Actuarial results for the Clergy Pension Scheme







Cydsynio Yes    
 Anghydsynio No    
 Ansicr Don't know

## Bro Eleth

Eleth Sant  
Amlwch



Tyfydog Sant  
Llandyfydog



Santes Fair  
Llannerch-y-medd



Sant Mihangel  
Llanfihangel-Tre'r-Beirdd



Ana Sant  
Coedana



**Eilian Sant**  
Llaneilian



**Santes Gwenllwyfo**  
Llanwenllwyfo



**Sant Mihangel**  
Penrhoslligwy



**Gallgo Sant**  
Llanallgo



**Eugrad Sant**  
Llaneugrad



**Garmon Sant**  
Llanarmon



**Cybi Sant**  
Llangybi



**Cawrdfa Sant**  
Abererch



**Sant Ioan Fedyddiwr**  
Llanystumdwy



**Santes Catherine**  
Cricieth



## Bro Eifionydd


Santes Fair  
Beddgelert



Santes Fair  
Dolbenmaen



Sant Ioan  
Porthmadog



Sant Mihangel  
Treflys



Cyngar Sant  
Borth-y- Gest



## Bro Celynnin

Sant Bened  
Gyffin



Celynnin Sant  
Llangelynnin



Santes Fair  
Caerhun




Santes Fair  
Conwy



Sant Pedr  
Llanbedr-y-Cennin



A detailed close-up of a religious painting, likely a fresco or oil painting, showing the face and upper torso of Christ. Christ has long, wavy, golden-brown hair and a beard. He is wearing a blue robe with a gold, geometric patterned border. His right hand is raised, with the index finger pointing upwards, and his left hand is holding a small, round, golden object. The background is dark and textured.

# Wynnebau Crist The Faces of Christ



Yng nghyfarfodydd Grŵp Cadfan eleni mae ein haddoliad yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar berson a dwyfoldeb Iesu Grist.

Wrth i ni gyfarfod dros y ddau ddiwrnod hyn, rhown sylw i:

Iesu, fel Bugail, yr Un sy'n chwilio amdanom â cariad a gofal;

Iesu fel y Gair Cyntafanedig, yr hwn a fu, ac sydd nawr, ac a fydd am byth;

Iesu fel Doethineb Duw, fel Sophia.


*At the Grŵp Cadfan meetings this year our worship is centred upon different aspects of person and divinity of Jesus Christ.*

*As we meet over these two days, we focus upon:*

*Jesus as Shepherd, the One who searches for us with love and care;*

*Jesus as the Only Begotten Word, who was and is and is for ever.;*

*Jesus as the Wisdom of God, as Sophia.*



Wanabau

Wanabau

Wanabau

Wanabau

Bugail

Shepherd

## Addoliad agoriadol / Opening worship

### Gweddi ymgynnull / Gathering prayer

Clywch eiriau Duw:

“Chwi fy mhraidd, praidd fy mhorfa, yw fy mhobl,  
a myfi yw eich Duw.” <sup>1</sup>

You are our God,  
you call us by name to come and to listen,  
in prayer and in worship.

**You gather us like lambs in your arms, O God. <sup>2</sup>  
With love and compassion and gentleness,  
you hold us close in safety, and nourish us.  
In Jesus you sent to us the Good Shepherd,  
the One who laid down his life for us,  
whose voice we seek to follow.**

You are our God,  
you call us by name to come and to listen,  
in prayer and in worship

**Amen.**

<sup>1</sup> Eseciel / Ezekiel 34:31

**Translation /** Hear the words of God: “You are my sheep, the sheep of my pasture, and I am your God.”

<sup>2</sup> Eseia / Isaiah 40:11

## Ceisio maddeuant / Seeking forgiveness

Mewn tawel edifeirwch deawn gerbron y Bugail Da,  
gan gydnabod yr prydiau a'r ffyrdd yr ydym yn crwydro o'i gorlan.

### Tawelwch / Silence

Gwranddo, O fugail Israel.

**Gwna i'th nerth gyffroi,  
a thyrd i'n gwaredu. <sup>3</sup>  
Euthum ar gyfeiliorn fel dafad ar goll;  
chwilia am dy was,  
oherwydd nid anghofiais dy orchmynion. <sup>4</sup>**

Iesu yw'r Bugail Da,  
sy'n adnabod ei eiddo'i hun,  
ac yn galw'n eu hôl y defaid colledig o'i braidd.  
Wrth edifarhau,  
boed i chwi adnabod maddeuant cariadus Duw,  
a chlywed eto lais Iesu, ein Bugail, yn cyfarch eich calon.  
**Amen.**

## Darllenriad / Reading

Words of Jean Vanier. <sup>5</sup>

Jesus reveals that he is the Good Shepherd. Shepherds are needed as much today as they were in the time of Jesus, to love people and guide them to greater life.

Jesus the Good Shepherd, calls us to become good shepherds, to mature spiritually, to help others in need and to seek out the lost, crushed or oppressed, who have been pushed to the margins of society. Jesus reveals to us the qualities of good shepherds: shepherds are the ones who lead those who have been entrusted to them to inner freedom – the freedom to make good choices, to take initiative, and to grow to greater maturity and love.

Real shepherds give of themselves freely; their love and caring communicate life to those who are weaker and immature. That is why Jesus says: 'I came so that the sheep may have life and have it abundantly.' Jesus loves us abundantly and wants to give us all we need to grow in wisdom and greater human and spiritual maturity.

Being a good shepherd does not mean being perfect, for no one is perfect. Instead, it is being humble and open, recognising one's faults and compulsions and asking forgiveness when one has not acted justly.

To become a good shepherd is to come out of the shell of selfishness in order to be attentive to those for whom we are responsible so as to reveal to them their fundamental beauty and value and help them to grow and become fully alive.

**Translation /** In quiet repentance we come before the Good Shepherd, acknowledging the times and the ways in which we stray from the sheepfold. / Give ear, O Shepherd of Israel: Stir up your might and come to save us. I have gone astray like a lost sheep; seek out your servant, for I do not forget your commandments. / Jesus is the Good Shepherd, who knows his own and calls home the lost sheep of the fold. In repenting know God's loving forgiveness, and hear again the voice of Jesus, our Shepherd, speaking into your heart. Amen

<sup>3</sup> Salm / Psalm 80:1-2

<sup>4</sup> Salm / Psalm 119:176

<sup>5</sup> Jean Vanier, **Drawn into the Mystery of Jesus through the Gospel of John**

## Emyn / Hymn

Fugail ffyddlon, arwain  
ni ar ddolydd glas;  
Fugail ffyddlon, tywys  
ni hyd lwybrau gras.

Hold me fast, and guide me  
in the narrow way;  
so, with thee beside me,  
I shall never stray.

Moes dy fendith beunydd  
ar y prudd a'r llon;  
bydd yn drysor, i mi'r  
cyfan ar fy mron.

Daily bring me nearer  
to the heav'nly shore;  
may my faith grow clearer,  
may I love thee more.

Translation / In Faithful  
Shepherd, feed me / in the  
pastures green; / faithful  
Shepherd, lead me / where  
thy steps are seen. // Hallow  
ev'ry pleasure, / ev'ry joy  
and pain; / be thyself my  
treasure, / though none else  
I gain.

## Darlleniadau / Readings

John Donne wrote:

“Begin a *Lambe*, and thou will become a *Lion*;  
Reade the Scriptures modestly, humbly,  
and thou shalt understand them strongly, powerfully.”

Eseciel / Ezekiel 34:11-16

Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: Byddaf fi fy hunan yn chwilio am fy mhraidd ac yn gofalu amdanynt. Fel y mae bugail yn gofalu am ei braidd gwasgaredig pan fydd yn eu mysg, felly y byddaf finnau'n gofalu am fy mhraidd; byddaf yn eu gwaredu o'r holl fannau lle gwasgarwyd hwy ar ddydd cymylau a thywyllwch. Dygaf hwy allan o fysg y bobloedd, a'u casglu o'r gwledydd, a dod â hwy i'w gwlad eu hunain; bugeiliaf hwy ar fynyddoedd Israel, ger y nentydd ac yn holl fannau cyfannedd y wlad. Gofalaf amdanynt mewn porfa dda, a bydd uchelfannau mynyddoedd Israel yn dir pori iddynt; yno byddant yn gorwedd ar dir pori da ac yn ymborthi ar borfa fras ar fynyddoedd Israel. Byddaf fi fy hun yn bugeilio fy nefaid ac yn gwneud iddynt orwedd, medd yr Arglwydd Dduw. Byddaf yn ceisio'r ddafad golledig ac yn dychwelyd y wasgaredig; byddaf yn rhwymo'r ddolurus ac yn cryfhau'r wan. Ond byddaf yn difa'r fras a'r gref; byddaf yn eu bugeilio â chyfiawnder.

Translation / For thus says the Lord God: I myself will search for my sheep and will seek them out. As shepherds seek out their flocks when they are among their scattered sheep, so I will seek out my sheep. I will rescue them from all the places to which they have been scattered on a day of clouds and thick darkness. I will bring them out from the peoples and gather them from the countries and will bring them into their own land; and I will feed them on the mountains of Israel, by the watercourses, and in all the inhabited parts of the land. I will feed them with good pasture, and the mountain heights of Israel shall be their pasture; there they shall lie down in good grazing land, and they shall feed on rich pasture on the mountains of Israel. I myself will be the shepherd of my sheep, and I will make them lie down, says the Lord God. I will seek the lost, and I will bring back the strayed, and I will bind up the injured, and I will strengthen the weak, but the fat and the strong I will destroy. I will feed them with justice.

Ioan / John 10:11-16

Bryd hynny: Dywedodd Iesu, “Myfi yw’r bugail da. Y mae’r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid. Y mae’r gwas cyflog, nad yw’n fugail nac yn berchen y defaid, yn gweld y blaidd yn dod ac yn gadael y defaid ac yn ffoi; ac y mae’r blaidd yn eu hysglyfio ac yn eu gyrru ar chwâl. Y mae’n ffoi am mai gwas cyflog yw, ac am nad oes ofal arno am y defaid. Myfi yw’r bugail da; yr wyf yn adnabod fy nefaid, a’m defaid yn f’adnabod i, yn union fel y mae’r Tad yn f’adnabod i, a minnau’n adnabod y Tad. Ac yr wyf yn rhoi fy einioes dros y defaid. Y mae gennyf ddefaid eraill hefyd, nad ydynt yn perthyn i’r gorlan hon. Rhaid imi ddod â’r rheini i mewn, ac fe wrandawant ar fy llais. Yna bydd un praidd ac un bugail.”

## Myfyrdod / Reflection

Miriam Beecroft

## Ymbiliau / Prayers of intercession

In you, O God, Shepherd of all creation, we shall not want and you bring to us green pastures in which to rest:

**Good Shepherd, bring justice to creation,  
a healing to the land to renew places of stillness,  
and to the earth a fruitfulness to feed all people.**

Where the world and its people  
walk through the valley of darkness,  
you are there in the midst of them:

**Good Shepherd, bring your love to conquer evil,  
your rod and staff to be a comfort and hope  
to those in fear.**

You prepare a table, where all are welcomed,  
and in your presence we are anointed and our cup overflows:

**Good Shepherd, bring safety and security to all,  
and freedom to share with others  
the love you pour upon us.**

Your goodness and mercy follows us throughout all of our days,  
and you call and lead us to dwell in your house for ever:

**Good Shepherd, bring us one day,  
through the changes and chances of this fleeting life  
to the sheepfold of your eternal Love.  
These our prayers we pray in the name of Jesus,  
our Good Shepherd.  
Amen.**

**Translation /** At that time: Jesus said, “I am the good shepherd. The good shepherd lays down his life for the sheep. The hired hand, who is not the shepherd and does not own the sheep, sees the wolf coming and leaves the sheep and runs away – and the wolf snatches them and scatters them. The hired hand runs away because a hired hand does not care for the sheep. I am the good shepherd. I know my own and my own know me, just as the Father knows me and I know the Father. And I lay down my life for the sheep. I have other sheep that do not belong to this fold. I must bring them also, and they will listen to my voice. So there will be one flock, one shepherd.”

## Ffurf gyfoes Gweddi'r Arglwydd / The contemporary form of the Lord's Prayer

Ein Tad yn y nefoedd,  
 sancteiddier dy enw,  
 deled dy deyrnas,  
 gwneler dy ewyllys,  
 ar y ddaear fel yn y nef.  
 Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;  
 a maddau inni ein troseddau,  
 fel yr ŷm ni wedi maddau  
 i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;  
 a phaid â'n dwyn i brawf,  
 ond gwarded ni rhag yr Un drwg.  
 Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas  
 a'r gallu a'r gogoniant  
 am byth.  
 Amen.

*Translation /* Our Father in heaven, hallowed be your name, your kingdom come, your will be done, on earth as in heaven. Give us today our daily bread. Forgive us our sins as we forgive those who sin against us. Lead us not into temptation but deliver us from evil. For the kingdom, the power, and the glory are yours now and for ever. Amen.

## Emyn / Hymn

Chwi, eneidiau, pam y crwydrwch  
 fel tarfedig braidd o dref?  
 Ffôl galonnau, pam y cefnwch  
 ar ei ryfedd gariad ef?  
 A fu cyn dirioned Bugail,  
 neb erioed mor fwyn ei fryd  
 a'r Gwardedwr a fu'n gwaedu  
 er mwyn casglu'i braidd ynghyd?

There's a wideness in God's mercy,  
 like the wideness of the sea.  
 There's a kindness in God's justice,  
 which is more than liberty.  
 There is no place where earth's sorrows  
 are more felt than up in heaven.  
 There is no place where earth's failings  
 have such kindly judgment given

For the love of God is broader  
 than the measures of the mind.  
 And the heart of the Eternal  
 is most wonderfully kind.  
 If our love were but more faithful,  
 we would gladly trust God's Word,  
 and our lives reflect thanksgiving  
 for the goodness of our Lord.

*Translation /* Souls of men, why will ye scatter / like a crowd of frightened sheep? Foolish hearts, why will ye wander / from a love so true and deep? / Was there ever kindest shepherd / half so gentle, half so sweet, / as the Saviour who would have us / come and gather round his feet?

## Gweddi gloi / Closing prayer

Good Shepherd,  
 watch over us in our time together,  
 inspire us in all we say and do,  
 help us to be faithful to you,  
 now and always.  
 Amen.



**Wynnebau  
Crist  
The Faces  
of Christ  
Gair  
Word**



## Addoliad hwyrol / Evening worship

### Gweddi ymgynnull / Gathering prayer

In the beginning  
there was a formless void  
of nothingness, of emptiness,  
and, yet, the breath of the Eternal Presence  
swept unseen, unknown,  
across the dark unformed chaos  
transforming it with specks of light, illuminating  
hidden shapes, now called out  
of hiding, into being. And they  
declared it to be good.

**Let your Light and Word be revealed through us.**

In the beginning, Eternally Begotten,  
before the world took shape, God's Word  
and Breath of Wisdom touched the earth  
into greening and growth, creating  
diversity and difference and colour.  
And they spoke into hearts and minds  
illuminating creation, speaking words  
of Light to humanity.

**Let your Light and Word be revealed through us.**

### Emyn / Hymn

Ti, a'th anfeidrol air,  
dros y cynfydol bair  
ddatganaist drefn;  
gwrando'n gweddiâu'n llu,  
a phan fo pechod du  
yn cuddio'th weithiau cu,  
llewyrcha ras.

**Translation /** Thou, whose  
almighty word / chaos and  
darkness heard, / and took  
their flight; / hear us we  
humbly pray, / and where the  
gospel day, / sheds not it's  
glorious ray, / let there be  
light.

## Ceisio maddeuant / Seeking forgiveness

Iesu'r Gair Tragwyddol,  
am yr adegau hynny pan na fyddwn  
yn gwrandao am dy air  
sy'n siarad yn ein calonau a'n bywydau:

**Clyw ein gweddi a maddau i ni.**

Iesu'r Gair Tragwyddol,  
am yr adegau hynny pan na fyddwn  
yn datgan dy gyfiawnder a'th gariad  
i'r byd o'n cwmpas:

**Clyw ein gweddi a maddau i ni.**

Iesu'r Gair Tragwyddol,  
am yr adegau hynny pan nad ydym  
wedi gofalu am dy greadigaeth a'i ffrwythlondeb  
i bawb ei fwynhau:

**Clyw ein gweddi a maddau i ni.**

Iesu yw delw'r Duw anweledig,  
cyntafanedig yr holl greadigaeth,  
a thrwyddo ef y crewyd pob peth.  
Iesu, y cyntafanedig o blith y meirw,  
ddaw â geiriau o ras a maddeuant.  
Clywch nawr y Gair tragwyddol yn cyfarch eich calon,  
a'ch cymodi â Duw yn heddwch ei waed ar y groes. <sup>6</sup>

**Amen.**

**Translation /** Jesus, Eternal Word,  
for those times when we do not  
listen for your word spoken into  
our hearts and lives: Hear our  
prayer and forgive us. / Jesus,  
Eternal Word, for those times  
when we do not speak of your  
justice and love into the world  
around us: Hear our prayer and  
forgive us. / Jesus, Eternal Word,  
for those times when we have  
not cared for creation or its  
fruitfulness for all people to enjoy:  
Hear our prayer and forgive us. //  
Jesus is the image of the invisible  
God, the first-born of all creation,  
through whom all things were  
created. Jesus, the first begotten  
from the dead, brings to us words  
of grace and forgiveness. Hear  
now the eternal Word speak into  
your hearts, reconciling you with  
God through the peace he made  
upon the cross. Amen.

<sup>6</sup> Colosiaid / Colossians 1:15-20

## Emyn / Hymn

**Thou, who didst come to bring  
on thy redeeming wing,  
hope glimmering bright,  
new life in love's true ways,  
peace to the end of days,  
shed on us Gospel rays:  
let there be light.**

## Darlleniad / Reading

Diarhebion / Proverbs 8:22-31

Fy mhlentyn: Lluniodd yr Arglwydd fi ar ddechrau ei waith,  
yn gyntaf o'i weithredoedd gynt. Fe'm sefydlwyd yn y  
gorffennol pell, yn y dechrau, cyn bod daear. Ganwyd fi cyn  
bod dyfnderau, cyn bod ffynhonnau yn llawn dŵr. Cyn gosod  
sylfeini'r mynyddoedd, cyn bod y bryniau, y ganwyd fi, cyn  
iddo greu tir a meysydd, ac o flaen pridd y ddaear. Yr oeddwn  
i yno pan oedd yn gosod y nefoedd yn ei lle ac yn rhoi cylch  
dros y dyfnder, pan oedd yn cadarnhau'r cymylau uwchben  
ac yn sicrhau ffynhonnau'r dyfnder, pan oedd yn gosod terfyn  
i'r môr, rhag i'r dyfroedd anufuddhau i'w air, a phan oedd yn  
cynllunio sylfeini'r ddaear. Yr oeddwn i wrth ei ochr yn gyson,  
yn hyfrydwch iddo beunydd, yn ddifyrrwch o'i flaen yn wastad,  
yn ymddyfyrro yn y byd a greodd, ac yn ymhyfrydu mewn pobl.

**Translation /** My child: The Lord  
created me at the beginning of his  
work, the first of his acts of long  
ago. Ages ago I was set up, at the  
first, before the beginning of the  
earth. When there were no depths  
I was brought forth, when there  
were no springs abounding with  
water. Before the mountains had  
been shaped, before the hills, I  
was brought forth – when he had  
not yet made earth and fields, or  
the world's first bits of soil. When  
he established the heavens, I  
was there, when he drew a circle  
on the face of the deep, when he  
made firm the skies above, when  
he established the fountains  
of the deep, when he assigned  
to the sea its limit, so that the  
waters might not transgress his  
command, when he marked out  
the foundations of the earth, then  
I was beside him, like a master  
worker; and I was daily his delight,  
rejoicing before him always,  
rejoicing in his inhabited world  
and delighting in the human race.

Words of Jean Vanier. <sup>7</sup>

The Gospel of John begin with an extraordinary poetic, mystical vision of the healing of humanity, which in some way condenses the history of salvation and serves as a capsule version of the whole Gospel. It is called the “Prologue”. It is centred on the Greek word “*Logos*”, which is normally translated as the ‘Word’. This is not incorrect, but “Logos” has a much wider meaning, referring not only to the spoken word but also to the idea and thought behind the spoken word, the *vision*, the *plan* and the *wisdom* that inspire it. It is the Word’ that has the power to change, create and transform. “Wisdom” and “Word” both describe divine activity.

<sup>7</sup> Jean Vanier, **Drawn into the Mystery of Jesus through the Gospel of John**

## Myfyrdod / Reflection

Andy Herrick

## Ymbiliau / Prayers of intercession

Credwn

**yn un Arglwydd Iesu Grist, unig Fab Duw,  
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,  
Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch,  
gwir Dduw o wir Dduw,  
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,  
yn un hanfod â'r Tad.  
Ac yn enw Iesu'r Gair Tragwyddol,  
ymbiliwn gerbron y Duwdod:**

Ar i Air Duw ddatgan cyfiawnder a heddw yn ein byd:

**Tawelwch / Silence**

Ar i Air Duw ynganu yn yr Eglwys heddiw:

**Tawelwch / Silence**

Ar i Air Duw sibwrdd ym mywydau'r rhai mewn angen:

**Tawelwch / Silence**

Am i Air Duw siarad â ni drwy eraill y diwrnod hwn:

**Tawelwch / Silence**

Ar i Air Duw adleisio o'n hamgylch wrth i'r golau bylu:

**Tawelwch / Silence**

**Translation /** We believe in One Jesus Christ who is the Only Son of God, eternally begotten, God from God, Light from Light, true God from true God, begotten not made and of One being with the Father. And in the name of the Eternal Word, Jesus, we lift our prayers into the Divine Presence: / For God's Word to speak justice and peace into the world: / For God's Word to speak into the Church today: / For God's Word to speak into the lives of those in need: / For God's Word spoken to us through others this day: / For God's Word to watch over us as the light fades into night: / These our prayers we bring to the One who was and is and is to come, Jesus Christ. Amen.

## **Ffurf ar Weddi'r Arglwydd / A form of the Lord's Prayer**

Let us pray.

Eternal God, who alone is holy,  
 bringing life and light to all creation;  
 hovering over our chaos seeking peace;  
 drawing from the ground bread to sustain to us;  
 feeding us with divine activity;  
 guiding us to justice and hope  
 for the hungry and oppressed;  
 forgiving us and revealing the light  
 of new beginnings when we too forgive.  
 Wonderful is Name and Word,  
 O God, Eternally Begotten.  
 Amen.

## **Emyn / Hymn**

Christ, of God unseen the image,  
 born before creation's birth;  
 through whom all things were created,  
 all that live in heaven and earth –  
 realms and rulers, thrones, dominions,  
 powers great and forces small  
 through and for him made and fashioned –  
 he is in and over all.

Crist, y cyntaf oll o'r cread,  
 Crist sy'n dwyn y byd ynghyd;  
 trwyddo ef y crewyd popeth,  
 trwyddo ef daw gras o hyd.  
 Crist yn ben ar gorff ei Eglwys,  
 Crist yn rhodd ei gorff a'i waed;  
 ef ein dechrau, ef ein cyrchfan –  
 hwn sydd ddiwedd, ef a'n gwnaeth.

Christ in whom the very fullness  
 of the living God is found,  
 Christ who reconciles creation  
 turning earth to holy ground,  
 Christ the home of God's good pleasure  
 through whose blood is made our peace,  
 in who's cross, beyond all measure,  
 is our freedom and release.

*Translation* / Christ the  
 firstborn of creation, / Christ  
 in whom all things cohere, /  
 all things' Maker, seen and  
 unseen, / low and lofty, far  
 and near. / Christ the head of  
 his dear body, / of his Church  
 the living core, / risen from  
 the dead before us – / him  
 we gladly now adore.

## **Gweddi gloi / Closing prayer**


Let us pray.

**Eternal God,  
Only Begotten Son and Word,  
Holy Spirit and Wisdom,  
be present with us in these evening hours,  
and let your Light and Word be revealed through us.  
Amen.**

Let us go in the Love and Word of God, Jesus Christ.

**In the name of Christ. Amen.**

**W**  
**Y**  
**M**  
**E**  
**B**  
**A**  
**U**  
**C**  
**R**  
**I**  
**S**  
**T**  
**T**  
**H**  
**E**  
**F**  
**A**  
**C**  
**E**  
**S**  
**O**  
**F**  
**C**  
**H**  
**R**  
**I**  
**S**  
**T**  
**D**  
**O**  
**E**  
**T**  
**H**  
**I**  
**N**  
**E**  
**B**  
**W**  
**I**  
**S**  
**D**  
**O**  
**M**



## Cymun Bendigaid / Holy Eucharist

# Ymgyvnwll Gathering

Onid yw doethineb yn galw, yn codi ei llais â deall? <sup>8</sup>

**Deffrown,  
a chlywn ei galwad i geisio dealltwriaeth y dydd hwn.**

Onid yw doethineb yn galw, i'n calonogi a'n clymu ynghyd mewn cariad? <sup>9</sup>

**Deffrown,  
a chlywn ei galwad i dirgelwch Dyw y dydd hwn,  
holl drysorau a doethineb a gwybodaeth Crist.**

Onid yw doethineb yn galw, i godi'n llais mewn gweddi a mawl?

**Deffrown,  
a chlywn ei galwad i foliannu Duw.**

Down ynghyd yn enw Duw,  
sydd yma nawr a hyd byth.  
Alelwia! Atgyfododd Crist.

**Atgyfododd yn wir. Alelwia!**

Let us pray:

**God of all creation  
open our hearts and minds to your love,  
that we may know you with us  
in word and in sacrament,  
and in one another.  
Nourish us in our inner being  
to follow more closely your Son, Jesus Christ.  
Amen.**

**Translation /** Wisdom calls to us, and she raises her voice with understanding. We awake and hear her call to seek understanding as this day unfolds. / Wisdom call to us, to be united and encouraged in love. We awake and hear her call to enter into the mystery of God, into the treasures of wisdom and knowledge that is Christ. / Wisdom calls to us, to raise our voice in prayer and worship. We awake and hear her call to bring our prayer and praise to God. / We gather in the name of God, with us now and for evermore. / Alleluia! Christ is risen. He is risen indeed. Alleluia!

<sup>8</sup> Diarhebion / Proverbs 8:1

<sup>9</sup> Colosiaid / Colossians 2:2

## Emyn / Hymn

**Sophia-God, who made this earth  
with all her shining light,  
help us to recognise her worth,  
and guide us in our ardent search,  
to keep her beauty bright,  
to keep her beauty bright.**

**Dduw deall, Dduw sy'n rhoi yn rhwydd  
dy ryddid cu a'th ras,  
rho inni'r ddawn, rho inni'r ffydd  
i helpu pawb o'u rhwymau'n rhydd  
i goflaid cariad bras,  
i goflaid cariad bras.**

**Sophia-God, in whom we thrive,  
whose breath inspires our call,  
let truth and wisdom be our drive,  
keep faith, keep love, keep hope alive,  
till joy embraces all,  
till joy embraces all.**

**Translation /** Sophia-God, who sets us free / and calls us to be one, / free us to work for liberty, / for all to be what they would be, / until love's work is done, / until love's work is done.

## Ceisio maddeuant / Seeking forgiveness

The beginning of wisdom is the most sincere desire for instruction, and concern for instruction is love of her, and love of her is the keeping of her laws. <sup>10</sup>

<sup>10</sup> Doethineb Solomon / Wisdom of Solomon 6:17-18

The mouths of the righteous utter wisdom and their tongues speak justice. <sup>11</sup>

<sup>11</sup> Salm / Psalm 37:30

**When we stray from the paths of righteousness, forgive us.**

**When we do not follow the path of Wisdom in Jesus Christ, forgive us.**

**When we do not speak out for in love for justice, forgive us.**

The Wisdom of God embraces us in our humanity and forgiving us in and with grace, sets us afresh on the path of truth and love and justice.

**Amen.**

## Colect / Collect

Hollalluog Dduw,  
a orchfygaist angau trwy dy uniganedig Fab  
ac a agoraist i ni borth y bywyd tragwyddol:  
bydded i'th ras ein rhagflaenu  
a dyro ddeisyfiadau da yn ein meddyliau  
fel y gallwn, trwy dy gymorth parhaus di,  
eu dwyn i berffeithrwydd cyflawn;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd atgyfodedig,  
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**Amen.**

**Translation /** Let us pray. / Almighty God, through the resurrection of your Son, you have opened to us the gate of everlasting life: grant to us your grace and wisdom, put into our minds the desire to only that which is good, which by your continual help we may bring them to good effect; through Jesus Christ who is alive and reigns, with you and the Holy Spirit, One God, now and eternally.  
**Amen.**

## Darllenriad / Reading

Words of Elisabeth Schüssler Fiorenza. <sup>12</sup>

The goal of Wisdom teaching is to impose a kind of order on the myriad experiences that determine a person and thus enable one to cope with life. Wisdom teaching is an orientation to proper action, to knowing when to do what. It means engaging in value judgements that urge a certain course of action. Truthfulness, fidelity, kindness, honesty, independence, self-control, doing justice – these are all means of walking in the way of Wisdom. In short, Wisdom holds out as a promise the fullness and possibility of the “good life”; it is a search for justice and order in the world that can be discerned by experience. Wisdom teaching does not keep faith and knowledge apart, it does not divide the world into religious and secular, but provides a model for living a “mysticism of everyday things.”

<sup>12</sup> Elisabeth Schüssler Fiorenza, **Wisdom Ways: Introducing Feminist biblical Interpretation**



Tawelwch / Silence

## Darlleniad o'r Hen Destament / Old Testament reading

Pregethwr / Ecclesiastes 2:12-14, 26; 7:10-12

Darlleniad of Lyfr y Pregethwr.

Meddai'r Pregethwr: Trois i edrych ar ddoethineb, ac ar ynfyrwydd a ffolineb. Beth rhagor y gall y sawl a ddaw ar ôl y brenin ei wneud nag sydd eisoes wedi ei wneud? Yna gwelais fod doethineb yn werthfawrocach nag ynfyrwydd, fel y mae goleuni yn werthfawrocach na thywyllwch. Y mae'r doeth â'i lygaid yn ei ben, ond y mae'r ffôl yn rhodio yn y tywyllwch.

Y mae Duw yn rhoi doethineb, deall a llawenydd i'r sawl sy'n dda yn ei olwg, ond i'r un sy'n pechu fe roddir y dasg o gasglu a chronni ar gyfer yr un sy'n dda yng ngolwg Duw. Y mae hyn hefyd yn wagedd ac yn ymlid gwynt.

Paid â dweud, "Pam y mae'r dyddiau a fu yn well na'r rhai hyn?" Oherwydd ni ddangosir doethineb wrth ofyn hyn. Y mae cael doethineb cystal ag etifeddiaeth, ac yn fantais i'r rhai sy'n gweld yr haul. Y mae doethineb yn gystal amddiffyn ag arian; mantais deall yw bod doethineb yn rhoi bywyd i'w pherchennog.

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr Eglwys.

**Diolch a fo i Dduw.**

Tawelwch / Silence

## Efengyl / Gospel

Ioan / John 15:12-17

Listen to the Gospel of Christ according to St John.

**Glory to you, O Lord.**

At that time: Jesus said to his disciples, "This is my commandment, that you love one another as I have loved you. No one has greater love than this, to lay down one's life for one's friends. You are my friends if you do what I command you. I do not call you servants any longer, because the servant does not know what the master is doing; but I have called you friends, because I have made known to you everything that I have heard from my Father. You did not choose me but I chose you. And I appointed you to go and bear fruit, fruit that will last, so that the Father will give you whatever you ask him in my name. I am giving you these commands so that you may love one another."

This is the Gospel of the Lord.

**Praise to you, O Christ.**

## Myfyrdod / Reflection

Tony Hodges

**Translation /** The Preacher said: I turned to consider wisdom and madness and folly; for what can the one do who comes after the king? Only what has already been done. Then I saw that wisdom excels folly as light excels darkness. The wise have eyes in their head, but fools walk in darkness. / To the one who pleases him God gives wisdom and knowledge and joy; but to the sinner he gives the work of gathering and heaping, only to give to one who pleases God. This also is vanity and a chasing after wind. / Do not say, "Why were the former days better than these?" For it is not from wisdom that you ask this. Wisdom is as good as an inheritance, an advantage to those who see the sun. For the protection of wisdom is like the protection of money, and the advantage of knowledge is that wisdom gives life to the one who possesses it. / Hear what the Spirit is saying to the Church. Thanks be to God.

## Cyffes ffydd / An affirmation of faith

We believe in God,  
 Creator, Word and Wisdom  
 who speaks in to every generation.  
 We believe in God the Creator  
 who looked upon the world  
 and declared it all to be good.  
 We believe in the Incarnate Son  
 and Only Begotten Word of God,  
 born of Mary, he suffered the hatred of the world,  
 and was crucified.  
 On the third day he rose again  
 conquering death he ascended into heaven.  
 We believe in God the Holy Spirit, Wisdom for Life,  
 who calls us to acknowledge in life and worship,  
 Emmanuel, God with us.  
 Amen.

Fe'n gelwir gan Ddoethineb Duw yn Iesu Grist i garu ein gilydd,  
 a bod yn dangenefeddwy'r yn y byd.

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.

**A hefyd gyda thi.**

### Emyn / Hymn

In the world, God's life declaring,  
 wisdom dances in delight;  
 all earth's hope and passion sharing,  
 ways and truths beyond our sight.  
 In creation's heavenly glory,  
 all the power of love is shown;  
 in the telling of earth's story,  
 God's redeeming grace is known.

Pan gofleidiwn y blinedig,  
 wrth ymestyn llaw am law,  
 gwelwn Grist y stabl yno,  
 rhannwn bwysau'i groes uwchlaw.  
 Pererinion ym ar siwrnai,  
 ar y cyd hyd erwau'r daith,  
 yma ym yn gefn i'n gilydd,  
 teithio'r filltir, rhannu'r baich.

In our search for fairer giving,  
 we discern the Spirit's call;  
 in the struggle for just living,  
 God demands no less than all.  
 In our speaking, in our doing,  
 all the hope of love is known;  
 in our dream of earth's renewing,  
 Holy Wisdom shall be known.

**Translation /** We are called  
 by the Wisdom of God  
 in Jesus Christ to love  
 one another, and to be  
 peacemakers in the world. /  
 The peace of the Lord be with  
 you always. And also with  
 you.

**Translation /** When we reach  
 out to the stranger, / offering  
 welcome and embrace; /  
 then the Christ of cross and  
 manger / shines in every  
 human face. / In our hands  
 outstretched in greeting, / all  
 the strength of love is shown;  
 / in the openness of meeting,  
 / Christ's compassion is  
 made known.

# Diolchgarwch Thanksgiving

Let us pray:

Draw us close, O God, to you;  
that in this bread and in this wine,  
taken from the richness of the earth  
and fashioned by human hands,  
we may be renewed in faith and love for you;  
in and through Jesus Christ.

**Amen.**

The Lord be with you.

**And also with you.**

Lift up your hearts.

**We lift them up to the Lord.**

Let us give thanks to the Lord our God.

**It is right to give our thanks and praise.**

True and living God,  
the source of life for all creation,  
you have made us in your own image.  
Always and everywhere we give you thanks  
through Jesus Christ our Lord.

He is the Word made flesh.  
Through him you give to the eye of faith  
a new vision of your glory;  
you reveal your perfect love,  
and invite us to love and worship you,  
the unseen God.

Therefore, with angels and archangels  
and with all the company of heaven  
we praise your glorious name:

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,  
Duw gallu a nerth,  
nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.  
Hosanna yn y goruchaf.  
Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.  
Hosanna yn y goruchaf.**

Bendigedig wyt ti, Dduw hollalluog,  
am i'r Arglwydd Iesu,  
y nos y bradychwyd ef,  
gymryd bara,  
ac wedi rhoi diolch i ti,  
fe'i torrodd, a'i roi i'w ddisgyblion a dweud,  
Cymerwch, bwyteuach; hwn yw fy nghorff  
a roddir drosoch:  
gwnewch hyn er cof amdanaf.

Yr un modd, ar ôl swper fe gymerodd y cwpan;  
ac wedi rhoi diolch i ti,  
fe'i rhoddodd iddynt a dweud,  
Yfwch hwn, bawb;  
y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i  
a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau:  
gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef  
er cof amdanaf.

**Translation /** Holy, holy,  
holy Lord, God of power and  
might, Heaven and earth are  
full of your glory. Hosanna  
in the highest. Blessed is  
he who comes in the name  
of the Lord. Hosanna in the  
highest. / Blessed are you,  
almighty God, because on  
the night he was betrayed  
the Lord Jesus took bread,  
and when he had given  
thanks, he broke it, gave it to  
his disciples and said, Take,  
eat; this is my body which  
is given for you: do this in  
remembrance of me. In the  
same way, after supper he  
took the cup; when he had  
given you thanks he gave it  
to them and said: Drink this,  
all of you; this cup is the new  
covenant in my blood poured  
out for you and for many for  
the forgiveness of sins: do  
this as often as you drink it in  
remembrance of me.

Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd:

**Bu farw Crist.  
Atgyfododd Crist.  
Daw Crist mewn gogoniant.**

Felly, Dduw cariadus,  
gan goffáu aberth Crist dy Fab  
unwaith am byth ar y groes  
a buddugoliaeth ei atgyfodiad,  
gofynnwn i ti dderbyn ein haberth hwn o foliant.

Anfon dy Ysbryd Glân arnom ni ac ar y rhoddion hyn  
er mwyn inni gael ein porthi  
â chorff a gwaed dy Fab  
a'n llenwi â'th fywyd a'th ddaioni.

Una ni yng Nghrist a rho inni dy dangnefedd  
er mwyn inni gyflawni dy waith  
a bod yn gorff iddo ef yn y byd.

Trwyddo ef, gydag ef, ac ynddo ef,  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
Dad hollalluog,  
eiddot ti yw'r holl anrhydedd a gogoniant  
yn oes oesoedd.

**Amen.**

## **Ffur ar Weddi'r Arglwydd / A form of the Lord's Prayer**

We pray, O God:

**Holy and wonderful is your Name.  
You reach out to all creation  
with a gentle touch of welcoming love.  
You breathe peace into your world.  
Feed all who hunger, physically and spiritually.  
Set free all people, those oppressed and held captive.  
Open our minds to confess our wrong-doing.  
Open our lives to your forgiveness.  
Open our hearts to forgive others.  
Holy and wonderful is your Name.  
You are God, and your name will last forever.  
Amen.**

Jesus said: "I am the Bread of Life."

**Jesus said: "Take, this is my body."**

We have bread to take.

Listen as it is broken

**Translation /** Let us proclaim the mystery of faith: Christ has died. Christ is risen. Christ will come in glory. / Therefore, loving God, recalling now the sacrifice of Christ your Son once for all upon the cross and the triumph of his resurrection, we ask you to accept this our sacrifice of praise. Send your Holy Spirit on us and on these gifts that we may be fed with the body and blood of your Son and be filled with your life and goodness. Unite us in Christ and give us your peace that we may do your work and be his body in the world. Through him, with him, in him, in the unity of the Holy Spirit all honour and glory are yours, almighty Father, for ever and ever. Amen.

# Cymun Communion

## Cymuno / Making our Communion

### Emyn / Hymn

Fount of life, Eternal Now,  
Source of all that's yet to be,  
Maker of this earth we love,  
all we sense and all we see:  
from this feast of love we rise,  
tuned to sing our songs of praise  
of a grace so undeserved  
folding us in warm embrace.

Crist y Gair a Iesu'n Iôr,  
ti sy'n rhannu'n anian ni;  
a'i orseddu gyda Duw  
yng nghorfoledd nefoedd fry.  
O'r wledd hon yn llawen awn,  
yn un corff, dy anian di –  
awn i rannu'r hedd o'n mewn,  
ffrwyth d'ogoniant ynom ni.

Spirit God, Eternal Breath,  
wind and fire of peace and love;  
teach, interpret, reconcile,  
tenderly bring us to life;  
from this feast of joy we rise,  
swept with power to blaze God's name.  
Every corner, hear the news –  
nothing now can be the same.

**Translation** / Saviour Christ,  
Eternal Word, / sharing our  
humanity, / yet within God's  
glory shines, / showing us  
another way: / from this feast  
of joy we rise, / knit as one,  
your body now, / sharing  
peace and bringing hope / as  
we in your fullness grow.

## Wedi'r Cymun / After Communion

Jesus, Transcendent Wisdom,  
ultimate Reality,  
and Truth of all that is:

In the day that lies in front of us;  
in our discussing and in our learning,  
in our being together in this place,  
open our hearts and minds  
to the Wisdom of your word to us,  
and the Wisdom of knowing you present with us.  
Amen.

# Clo Close

## Ymadael / Dismissal

Go in and with the love of God to serve Christ in faith.  
Alleluia! Alleluia!

In the name of Christ.  
Alleluia! Alleluia!





Dduw ein holl deithio, fe alwaist dy was Cadfan  
i weddio, cenhadu a thystiolaethu ar lwybr y pererin:  
rho i'th Eglwys heddiw yr un alwedigaeth  
i ddynesu atat mewn addoliad, i ehangu teulu'r ffydd, ac i garu dy holl Greadigaeth,  
fel y gall y byd a'th geisiodd di dros fôr y canrifoedd,  
hyd yn oed yn ein dyddiau ni ganfod yn dy sancteiddrwydd  
ei wir orffwysfan a'i gartref tragwyddol;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

---

God of our journeying, you called your servant Cadfan  
to the pilgrim's life of prayer, mission and witness:  
give to your Church today the same commission  
to draw near to you in worship, to broaden the family of faith, and to love all your Creation,  
so that the world that has sought you across a sea of centuries  
may even in our days find in your holiness  
a true resting place and an eternal home;  
through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit,  
one God, now and for ever. Amen.

Tŷ Deiniol, Clos y Gadeirlan, Bangor,  
Gwynedd LL57 1RL  
01248 354999  
[bangor@eglwysyngnghymru.org.uk](mailto:bangor@eglwysyngnghymru.org.uk)  
[bangor.eglwysyngnghymru.org.uk](http://bangor.eglwysyngnghymru.org.uk)

---

Tŷ Deiniol, Cathedral Close,  
Bangor, Gwynedd LL57 1RL  
01248 354999  
[bangor@churchinwales.org.uk](mailto:bangor@churchinwales.org.uk)  
[bangor.churchinwales.org.uk](http://bangor.churchinwales.org.uk)



**Esgobaeth  
Bangor**  
The Diocese  
of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru  
The Church in Wales